Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin

**Cyngor Sir Gâr**
**Neuadd y Sir**
**Caerfyrddin**
**SA31 1JP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Gaerfyrddin ei chydlynu gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin. Mae partneriaid yn cynnwys Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor Sir Gâr, Coleg Sir Gâr, Addysg Oedolion Cymru, Dysgu Cymraeg Sir Gâr, Gyrfa Cymru a Cymunedau am Waith a Mwy. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda sylfaen ehangach o ddarparwyr eraill, gan gynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol, ysgolion a phrosiectau cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau tai a'r gwasanaethau addysg a phlant. Mae'r partneriaid allweddol yn cyflwyno darpariaeth ym meysydd blaenoriaeth medrau hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, a chânt eu hariannu trwy grantiau a threfniadau rhyddfraint uniongyrchol. Cynigir darpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n cynnwys canolfannau cymunedol, lleoliadau cymunedol, llyfrgelloedd ac ysgolion.

Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru o ran ardal ddaearyddol, a'r bedwaredd fwyaf o ran maint y boblogaeth. Mae ganddi'r dwysedd poblogaeth pumed isaf yng Nghymru. Mae tua 61% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae dros 187,000 o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn dros 81,000 o aelwydydd, gyda lefel uwchlaw'r cyfartaledd o bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn, sef 24%, a lefel islaw'r cyfartaledd o'r rhai o dan 15 oed, sef 16%.

Mae ychydig dros 26% o drigolion dros 16 oed yn economaidd anweithgar, ac ychydig llai na 72% mewn cyflogaeth, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. O'r rhain, mae 73% mewn cyflogaeth amser llawn, gyda chyflog wythnosol gros o £623.40 ar gyfer gweithwyr amser llawn, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef £603.50, ond yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, sef £642.20.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 34.5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi. Mae hyn 1.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r data hefyd yn dangos mai canran y trigolion rhwng 16 ac 64 oed sydd â chymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch yw 40%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 38.6%, ac mae 89% o'r boblogaeth yn meddu ar gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch. Canran y bobl heb unrhyw gymwysterau yn Sir Gaerfyrddin yw 7%, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 8.3%.

Yn 2021, mae data'r cyfrifiad yn dangos mai canran y siaradwyr Cymraeg sy'n dair oed neu'n hŷn oedd ychydig llai na 40%, sef gostyngiad o 43.9% yn 2011. Dywed 97.6% o drigolion Sir Gaerfyrddin mai eu prif iaith yw naill ai Cymraeg neu Saesneg. Dywed 1.2% o bobl mai eu prif iaith yw Pwyleg; mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 0.7%. Mae tua 450 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn byw yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i ddarparu ystod addas o gyrsiau ar gyfer dysgwyr ledled y sir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu a gwella'u gwybodaeth a'u medrau. Ar draws y bartneriaeth, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymroi'n gydwybodol wrth fynychu eu cyrsiau. Maent yn datblygu ystod eang o fedrau iaith, medrau hanfodol, medrau bywyd a medrau crefft. Mae dysgwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a'u tiwtoriaid. O ganlyniad i fynychu eu cyrsiau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u hyder a'u hunan-barch. Maent hefyd yn rhoi cymorth emosiynol i'w gilydd pan fydd angen, ac yn ffurfio grwpiau ffrindiau sy'n cefnogi eu dysgu ymhellach.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi ffocws uchel ar les dysgwyr trwy amrywiaeth o strategaethau sy'n gwneud dysgu'n berthnasol ac yn ddifyr. Mae tiwtoriaid yn ystyried anghenion lles dysgwyr yn ofalus ochr yn ochr â'u hanghenion dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno cyrsiau mewn ystod briodol o leoliadau o ansawdd da. Mae'r lleoliadau hyn yn ofodau croesawgar a difyr y mae dysgwyr yn mwynhau gweithio ynddynt. Ar draws y bartneriaeth, mae tiwtoriaid yn rhoi lefelau cryf o gymorth i ddysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr ac yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol. Cyflwynir llawer o sesiynau mewn modd medrus gydag adnoddau ysgogol o ansawdd da sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn cefnogi eu cynnydd. Er bod y bartneriaeth yn sicrhau bod diwylliant Cymru'n cael ei gynnwys ym mwyafrif y cyrsiau, mae'r bartneriaeth yn cyflwyno ychydig iawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Mae'r bartneriaeth yn ymgysylltu â'r gymuned trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys nawdd, hysbysebu ar-lein ac mewn lleoliadau cymunedol. Mae llawer o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau trwy argymhellion gan bobl eraill. Mae'r bartneriaeth yn gwerthfawrogi adborth a barn dysgwyr ac yn cynnal arolygon rheolaidd. Er bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth wedi'i rhestru ar wefan y Cyngor, nid yw'r bartneriaeth yn elwa ar ardal a rennir sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am argaeledd yr holl gyrsiau a gynigir.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr presennol. Yn ddiweddar, mae arweinyddiaeth strategol y bartneriaeth wedi newid, ac mae angen diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir o hyd. Mae perthnasoedd rhwng darparwyr yn gadarnhaol, a chyfathrebu yn anffurfiol, ar y cyfan. Mae rheolaeth weithredol yn cefnogi ystod eang o weithgareddau addysgu a dysgu yn dda.

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen gwneud yn well wrth gynllunio darpariaeth, gwella ansawdd a hyrwyddo rhaglenni. Mae hefyd yn cydnabod bod angen monitro a sicrhau ansawdd cyffredinol darpariaeth y bartneriaeth a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae pob partner yn sicrhau ansawdd ei ddarpariaeth ei hun. Ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn elwa ar strategaethau i fonitro ansawdd cyffredinol ei darpariaeth. Er bod arweinwyr strategol yn ymwybodol o'r anghenion datblygu hyn, mae'n rhy gynnar i fesur effaith eu gweithredoedd.

## Argymhellion

A1 Mireinio gweithdrefnau ac arferion arweinyddiaeth strategol yn y bartneriaeth, gan gynnwys sicrhau ansawdd y ddarpariaeth

A2 Datblygu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â’i ymagweddau lluosog at godi ymwybyddiaeth am niwroamrywiaeth, cynwysoldeb a chymorth ar gyfer dysgwyr, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas o ran eu mannau cychwyn. Mewn trafodaethau â’u tiwtoriaid, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gosod targedau dysgu priodol i’w helpu i fodloni nodau personol, cymdeithasol a rhai sy’n gysylltiedig â gwaith.

Mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymroi’n gydwybodol i ddatblygu’r pedwar medr iaith. Maent yn gwneud cynnydd cyflym wrth ddatblygu eu medrau siarad, yn benodol. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn cyrraedd lefel resymol o rugldер sy’n eu helpu i ddod o hyd i waith yn haws. Mae’n eu helpu i gwblhau gweithrediadau bob dydd a gwneud ffrindiau yn eu bro. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n ddechreuwyr yn dysgu geirfa newydd yn gyflym. Gallant esbonio ystyr y geiriau i ddysgwyr eraill yn Saesneg, ac maent yn defnyddio’r geiriau’n gywir mewn cyd-destunau penodol, fel siarad am fyd gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr sy’n ddechreuwyr yn darllen testunau byr ar goedd yn dda. Maent yn rhoi sylw addas i atalnodi ac yn darllen yn rhugl gydag ynganiad a goslef dda. Maent yn aildrefnu symbyliadau lluniau’n gywir i adrodd y stori i ddysgwyr eraill yn y dosbarth.

Mae dysgwyr SSIE mwy datblygedig yn dangos dealltwriaeth dda o ramadeg ac yn cymhwyso’u gwybodaeth ddatblygol o fewn cyd-destunau newydd. Maent yn defnyddio strategaethau darllen, fel llithrddarllen a sganio, yn effeithiol i ddeall pwyntiau allweddol testunau. Mewn llawer o achosion, maent yn ysgrifennu crynodebau manwl gywir o’r deunydd y maent wedi’i ddarllen. Yn ystod cyrsiau SSIE

ar-lein, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'u medrau gwrando yn effeithiol i nodi rhifau mawr a gosod y pwynt degol yn briodol.

Mae ychydig o ddysgwyr SSIE yn deall rhai geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg, er enghraifft cyfarchion cyffredin ac ymadroddion idiomatig. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a llais Cymru yn dda trwy ddefnyddio testunau, fideos a thrafodaethau y mae tiwtoriaid yn eu defnyddio fel deunyddiau symbylu.

Mewn dosbarthiadau llythrennedd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau siarad, gwrando a dealltwriaeth yn dda. Yn y dosbarthiadau hyn, mae dysgu'n fwyaf effeithiol lle caiff dysgwyr gyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o ramadeg trwy ddadansoddi ystod o destunau, fel storïau a cherddi. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mewn sesiynau rhifedd mewn dysgu teuluol, mae rhieni'n datblygu eu dealltwriaeth o'r dulliau a ddefnyddia ysgolion i addysgu rhifedd i blant cynradd. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n gweld y sesiynau'n fuddiol, a gyda'r tiwtoriaid, maent yn datblygu ystod ddiddorol o gemau a chaneuon dwyieithog sy'n gweddu i gwricwlwm yr ysgol, y maen nhw ac aelodau eraill o'u teulu yn eu defnyddio ar yr aelwyd i gefnogi ac ymestyn dysgu'r plant yn yr ysgol. Yn ail hanner y sesiynau, mae plant yn ymuno â'u rhieni ac yn ymarfer y gemau a'r caneuon. Mae hyn yn darparu amser dysgu un i un defnyddiol gyda'u rhieni ar gyfer plant. Mae ychydig o rieni o'r grwpiau hyn yn ymuno â chyrsiau eraill yn ddiweddarach i ymestyn eu haddysg eu hunain.

Mewn dosbarthiadau rhifedd medrau hanfodol, mae dysgwyr yn adolygu costau aelwyd yn effeithiol. Maent yn gwneud cynnydd da yn datblygu gwybodaeth a medrau newydd wrth lunio cyllideb ac wrth chwilio am ffyrdd o arbed costau.

Mewn dosbarthiadau digidol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu ystod o fedrau sy'n briodol i'w diddordebau a'u hanghenion o fan cychwyn cyffredin, fel dysgu defnyddio cymhwysiad. Mae llawer o ddysgwyr yn dysgu defnyddio'u ffonau symudol i dynnu lluniau o eitemau y maent yn dymuno'u gwerthu. Maent yn dysgu sut i docio'r lluniau i sicrhau bod darpar brynwyr yn gallu gweld yr eitem yn glir. Mae dysgwyr eraill yn datblygu eu medrau mewn anfon negeseuon e-bost ag atodiadau, ac mae pob un o'r dysgwyr yn magu hyder yn defnyddio'r medrau newydd y maent wedi'u caffael trwy ymarfer ag ystod o ddyfeisiau electronig.

Mewn cyrsiau diddordeb personol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r medrau allweddol sydd o ddiddordeb iddynt yn dda. Er enghraifft, ar gyrsiau gwerthfawrogi cerddoriaeth, mae dysgwyr yn defnyddio'u dysgu blaenorol yn effeithiol i'w helpu i ddeall a dadansoddi datblygiad arddulliau operatig Ewropeaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dilyn sgôr gerddorol yn dda gyda chymorth y tiwtor, a gallant adnabod yr alawon sy'n portreadu themâu o fewn yr opera. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae defnyddio gwahanol fathau o raddfeydd cerddorol yn cyfleu gwahanol hwyliau ac awyrgylch mewn cerddoriaeth. Mewn dosbarthiadau celf, gludwaith a chrefft, mae dysgwyr yn defnyddio gwahanol fathau o ddeunyddiau'n effeithiol i greu arteffactau mynegiannol. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn ei gweld yn therapiwtig dysgu medrau newydd a bod yn greadigol.

Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn gyfyngedig iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae dysgwyr sy'n oedolion yn Sir Gaerfyrddin yn elwa ar y flaenoriaeth a roddir gan y bartneriaeth dysgu oedolion i'w lles. Mae'r darparwyr yn hyrwyddo amrywiaeth o strategaethau sy'n gwneud dysgu'n berthnasol ac yn ddifyr. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn deall bod eu hanghenion llesiant a lles ehangach yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'u hanghenion dysgu. Mae gan ddysgwyr fywydau prysur, sy'n aml yn heriol, a byddant wedi dioddef trawma difrifol yn ddiweddar. Mae llawer o ddysgwyr yn wynebu straen bod heb waith yn y tymor hir ac anawsterau ariannol cynyddol; mae dysgwyr eraill wedi'u hynysu neu'n unig, neu mae ganddynt raddau amrywiol o anghenion iechyd meddwl.

Ailagorodd canolfannau'n gyflym ar ôl y cyfnodau clo yn sgil COVID-19 ac roedd dysgwyr yn awyddus i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Roedd dysgwyr hŷn yn benodol o'r farn fod cyfleoedd i ddysgu a chymysgu gyda dysgwyr eraill yn bwysig, a helpodd y bartneriaeth iddynt deimlo'n ddiogel ac yn saff.

Mae presenoldeb yn dda. Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu, mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn, yn sylwgar ac yn cyfrannu'n dda yn y dosbarth. Mewn arolygon diweddar, dywed pob un o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu a byddai cyfran uchel iawn ohonynt yn argymell dosbarthiadau i ffrindiau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod sut i gwyno a rhoi gwybod am broblem neu fater diogelu.

Mae dysgwyr yn gwella'u lles trwy amrywiaeth o ddosbarthiadau academaidd a diddordebau personol, sy'n cynnwys crefftau, celf a cherddoriaeth. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi pellach sydd naill ai'n cael eu hwyluso gan y bartneriaeth neu gan sefydliadau partner ehangach. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn rhannu bwyd a ryseitiau traddodiadol fel rhan o'u dysgu ac mewn digwyddiadau cymdeithasol ychwanegol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud ffrindiau newydd, cynyddu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

Mae dysgwyr yn awyddus i ddisgrifio'r modd y mae cymryd rhan mewn dysgu yn cyfoethogi eu bywydau, yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd ac yn goresgyn unigrwydd a theimlo'n ynysig. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau SSIE amser llawn yn dangos gwydnwch wrth wynebu sefyllfaoedd newydd hynod anodd, fel delio â gweinyddu'r llywodraeth, ac maent yn llawn cymhelliant i ddysgu Saesneg er mwyn gwella'u medrau cyflogadwyedd, i gefnogi dysgu eu plant a chymryd rhan yn y gymdeithas leol. Mae dysgwyr SSIE sy'n cael eu cefnogi gan diwtoriaid i wirfoddoli yn eu proffesiwn, fel nyrsio a meddygaeth, hyd nes y gallant gyrraedd y lefel Saesneg sy'n ofynnol yn y DU, yn gadarnhaol ynglŷn â'u dyfodol. Mae gwirfoddoli yn helpu eu hunan-barch ac yn eu cadw mewn cysylltiad â gweithgareddau cyfarwydd.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau llythrennedd yn awyddus i wella'u gallu mewn iaith fel y gallant ymdopi â llenwi ffurflenni a deall gwybodaeth. Mae llawer ohonynt hefyd yn dymuno astudio llenyddiaeth a barddoniaeth er mwyn iddynt allu gwthio'u hunain y tu hwnt i sefyllfa y maent yn gyfarwydd â hi, a deall a mynegi teimladau ac emosiynau. Mae dysgwyr eraill yn awyddus i wella'u medrau mathemategol a

thechnoleg gwybodaeth i ddod o hyd i'r ffordd yn y byd digidol. Mae llawer ohonynt yn awyddus i symud i fathau eraill o ddysgu, a symud ymlaen i lefelau uwch, lle bo'n berthnasol.

Mae dysgwyr mewn ystod o ddosbarthiadau diddordeb arbennig yn y celfyddydau yn datblygu cariad at ddysgu. Maent yn datblygu medrau artistig a chrefft a'u gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o gerddoriaeth, yn gwneud ffrindiau newydd tra'n aml yn tynnu eu meddyliau oddi ar eu hwyliau isel neu'u hanawsterau personol. Mae cerddoriaeth gefndir sy'n cael ei chwarae mewn ystafelloedd dosbarth priodol yn eu helpu i gadw'n bwyllog ac ymlacio.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu gwydnwch a'u gallu i ddelio â phrofiadau anghyfarwydd. Mae dysgwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill yn magu hyder yn sgil ymweld â swyddfa bost i ddeall sut i ymgymryd â gweithdrefnau swyddogol, fel cael trwydded yrru. Mae dysgwyr ar draws y cwricwlwm yn elwa ar ymweliadau wedi'u trefnu â llyfrgelloedd, lleoedd lleol o ddiddordeb neu deithiau cerdded mewn trefi ac yng nghefn gwlad. Maent yn trafod yr hyn y maent wedi'i weld, ei wneud a'i brofi. Mae hyn yn gwella'u gwybodaeth leol, eu ffitrwydd a'u hiechyd meddwl.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda yn y dosbarth ac yn helpu ei gilydd â'u gwaith. Maent hefyd yn rhoi cymorth emosiynol i'w gilydd, ac yn aml yn ffurfio cyfeillgarwch cefnogol sy'n datblygu y tu allan i'w dosbarthiadau. O ganlyniad i'r cymorth hwn gan gyfoedion, daw dysgwyr yn oddefgar o anawsterau pobl eraill. Mae llawer ohonynt yn goresgyn eu hunanymwybyddiaeth a'u hembaras am yr heriau y maent wedi'u profi yn eu dysgu eu hunain.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i gyflwyno ystod o gyrsiau ledled y sir. Mae gan y darparwr ffocws clir ar gyrsiau a gyflwynir ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o gyrsiau ym meysydd dysgu medrau hanfodol, SSIE, a chyflogadwyedd. Mae'r ddarpariaeth SSIE yn cynnwys ystod o gyrsiau amser llawn a rhan-amser o lefel mynediad i lefel dau hyd at TGAU. Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno cyrsiau diddordeb personol pan nodir bod angen neu alw amdanynt. Mae enghreifftiau o gyrsiau o'r fath yn cynnwys gwerthfawrogi cerddoriaeth glasurol a llenyddiaeth. Mae'r bartneriaeth yn cynnig ychydig o gyrsiau dysgu teuluol mewn llythrennedd a rhifedd i rieni sydd eisiau cefnogi addysg eu plentyn o oedran ysgol gynradd. Ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn cyflwyno darpariaeth yn ddwyieithog na thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhelir cyrsiau mewn ystod o leoliadau addas. Mae llawer o leoliadau'n ofodau croesawgar a difyr y mae dysgwyr, tiwtoriaid a staff cymorth gweinyddol yn mwynhau gweithio ynddynt. Yn yr achosion gorau, ceir adnoddau da mewn amgylcheddau dysgu ac ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau addysgu a dysgu. Caiff ychydig iawn o gyrsiau, sef cyrsiau iaith yn gyffredinol, eu cyflwyno ar-lein trwy gytundeb rhwng dysgwyr a thiwtoriaid.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn

helpu datblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol dysgwyr, yn ogystal â chefnogi eu hanghenion lles.

Ar draws y bartneriaeth, mae tiwtoriaid yn frwdfrydig ac yn hynod gefnogol a sensitif i anghenion cymorth unigol dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cynllunio sesiynau'n arbennig o dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth bwnc yn dda i gynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol i gynyddu gwybodaeth, medrau a chyfranogiad dysgwyr. Cyflwynir llawer o sesiynau mewn modd medrus gydag adnoddau ysgogol o ansawdd da sy'n gweddu'n ofalus i arddulliau ac anghenion dysgu unigol dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn dangos yn effeithiol i ddysgwyr sut i roi medrau newydd ar waith ac yn mynd ati i annog dysgwyr i ymestyn eu dysgu, er enghraifft fideo am Iwerddon a Chymru, y mae dysgwyr yn ei ddefnyddio yn sylfaen i wneud ystod eang o gymariaethau rhwng y ddwy wlad.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol dysgwyr i osod a chytuno ar nodau personol realistig ond heriol. Maent yn defnyddio'r cynlluniau hyn yn dda i gofnodi gwybodaeth allweddol am fannau cychwyn, nodau tymor byr ac anghenion cymorth dysgwyr. Yn yr achosion gorau, defnyddir y dogfennau hyn yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr yn erbyn targedau, ac maent yn cynnwys cofnodion ffocysedig a manwl sy'n olrhain ac yn monitro cynnydd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth amserol a phwrpasol i ddysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn ystod y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid yn symud rhwng y grŵp yn gwirio cynnydd dysgwyr ac yn rhoi adborth adeiladol a chefnogol ar lafar. Mae'r adborth hwn yn rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ar wella'u perfformiad a hefyd yn cynorthwyo llawer ohonynt i wella'u medrau a'u hyder wrth gyfathrebu ar lafar. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio holi'n dda i ymgysylltu â dysgwyr a gwirio'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn cynorthwyo dysgwyr unigol yn arbennig o dda i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth. Yn y rhan fwyaf o wersi SSIE a diddordeb personol, mae tiwtoriaid yn annog defnydd o fedrau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol trwy annog dysgwyr i gyfrannu'n llawn at drafodaethau. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau SSIE, mae tiwtoriaid yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddewisiadau am ffordd iach o fyw tra'n datblygu eu medrau Saesneg. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu eu medrau trwy ysgrifennu llythyrau at ffrindiau yn rhestru'r camau y gallent eu cymryd i'w helpu i fyw bywydau iachach. Ar draws y ddarpariaeth, mae cyflymdra'r sesiynau yn briodol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu herio'n ddigonol. Yn yr achosion gorau, mae deunyddiau ychwanegol ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n gwneud cynnydd yn gyflymach. Er enghraifft, mewn sesiynau llythrennedd, roedd tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu eu gramadeg trwy ddarllen detholiad o gerddi. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar adeiladol a buddiol i ddysgwyr sy'n cefnogi dysgu a chynnydd ymhellach. Mewn dosbarthiadau achrededig, mae tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o feini prawf asesu eu cyrsiau. Lle bo'n briodol, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a ffonau symudol i gefnogi datblygiad eu medrau dysgu a'u medrau digidol.

Er bod y darparwr yn hysbysebu'n rheolaidd i recriwtio tiwtoriaid newydd, mae recriwtio yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae hyn yn rhwystr rhag datblygu a chyflwyno'r ddarpariaeth ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r bartneriaeth yn ymgysylltu â dysgwyr trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys nawdd, hysbysebu ar-lein ac mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd. Mae dysgwyr yn dilyn cyrsiau ar sail argymhelliad gan ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Rhestrir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar wefan y Cyngor, er nad oes ardal partneriaeth a rennir, ac mae gwybodaeth fanwl am gyrsiau wedi'i chyfyngu i ychydig o gyrsiau.

Caiff bron pob un o'r dysgwyr gyfarfod ac asesiad cychwynnol effeithiol cyn dechrau ar eu cwrs. Mae hyn yn helpu'r bartneriaeth i gytuno ar y cwrs a'r dull astudio gorau ar sail anghenion dysgwyr. Mae'r bartneriaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr ynghylch llwybrau dilyniant posibl o fewn y bartneriaeth a'r tu allan, neu i gyflogaeth.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig arweiniad defnyddiol i ddysgwyr ar sut i fanteisio ar gymorth sy'n eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'r coleg addysg bellach a'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST), i helpu dysgwyr SSIE i fanteisio ar grantiau cymorth gofal plant a Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA), sy'n eu galluogi i fynychu eu dosbarthiadau.

Mae dysgwyr yn datgelu unrhyw angen dysgu ychwanegol (ADY) sydd ganddynt ar eu ffurflen gofrestru gychwynnol neu ar eu cynllun dysgu unigol sy'n cael ei gwblhau yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Pan gaiff angen ei nodi, mae'r Cydlynydd ADY (CydADY) yn cynnig cyfarfod â dysgwyr i greu proffil un dudalen defnyddiol sy'n llywio'r addasiadau a'r newidiadau rhesymol sydd eu hangen. Rhennir proffiliau â'r dysgwr a'r tiwtor ac fe gaiff y dysgwr gyfarfodydd adolygu gyda'r CydADY trwy gydol ei gyfnod dysgu.

Mae'r CydADY yn rhannu dolenni ac adnoddau defnyddiol gyda thimau cyflwyno ynghylch testunau fel dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a chyflwr y sbectrwm awtistig. Mae olrhain cynnydd dysgwyr yn ganolog wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd ag ADY wedi'i ddatgelu a lle mae dysgwr wedi ymgysylltu â'r CydADY.

Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn gwneud newidiadau ac addasiadau rhesymol i weddu i anghenion eu dysgwyr. Er enghraifft, rhoddir tasgau personoledig mewn gwersi llythrennedd i ddysgwyr â dyspracsia neu ADHD yn seiliedig ar eu diddordebau unigol ac arddulliau dysgu y maent yn eu ffafrio. Rhoddir benthyg dyfeisiau electronig mwy i ddysgwyr â namau ysgafn ar eu golwg sy'n cael trafferth gweld cynnwys ar sgriniau eu ffonau symudol, er mwyn iddynt allu mynd at adnoddau ar-lein yn well. Mae tiwtoriaid yn cadw mewn cysylltiad â dysgwyr y tu allan i'r dosbarth trwy ddulliau ar-lein i ddyrannu gwaith a chyfleu unrhyw wybodaeth berthnasol.

Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn cael cymorth da gan eu tiwtoriaid, eu bod yn dangos parch atynt, ac yn gwrando ar eu barn. Mae'r bartneriaeth yn gwerthfawrogi barnau dysgwyr ac yn ymateb iddynt yn briodol, er enghraifft trwy newid amseroedd cyrsiau i gyd-fynd â chyfrifoldebau rhieni, patrymau gwaith ac ymrwymiadau teithio, a chynnal cyrsiau SSIE amser llawn ychwanegol i fodloni'r galw gan ddysgwyr. Trefnwyd bod nifer fach o gyrsiau ar-lein ar gael ar gyfer y dysgwyr hynny nad ydynt yn gallu mynychu canolfannau dysgu yn gorfforol. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi ymateb i adborth dysgwyr am safonau cyfleusterau dysgu, ac wedi uwchraddio i amgylcheddau dysgu mwy addas mewn llawer o feysydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar ryngweithio â dysgwyr eraill o wledydd ledled y byd, yn ogystal â dysgu am ddiwylliant Cymru. Cânt eu hannog i ddisgrifio digwyddiadau diwylliannol y maent wedi'u mynychu yng Nghymru, fel Sul y Cofio, ac maent yn trafod digwyddiadau tebyg yn eu gwledydd eu hunain. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'r gymuned leol, y byd ehangach a phwysigrwydd goddefgarwch a pharch at bobl eraill.

Mae'r bartneriaeth wedi dechrau cymryd camau cadarnhaol i ymateb i alw cynyddol gan ddysgwyr ar gyfer materion yn gysylltiedig ag iechyd meddwl. Cynorthwywyd ychydig o aelodau staff i gael eu hyfforddi'n ffurfiol mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl, ac mae pob un o'r staff wedi mynychu dysgu proffesiynol ar bynciau, er enghraifft arfer sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn wedi helpu staff i gael ymwybyddiaeth gynyddol o sut i nodi a chynorthwyo pryderon iechyd meddwl dysgwyr. Mae cymorth cwnsela ar gael i ddysgwyr trwy aelodau o'r bartneriaeth. Fodd bynnag, mae argaeledd a mynediad ar gyfer dysgwyr yn y gymuned yn gyfyngedig, ac o ganlyniad, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cymorth hwn. Mae sawl tiwtor yn parhau â'u dysgu eu hunain i gyfoethogi eu medrau addysgu a'r ffordd y maent yn cynorthwyo dysgwyr. Mae ychydig o diwtoriaid yn hyfforddi mewn niwroamrywiaeth ac yn rhannu eu gwybodaeth â thiwtoriaid eraill a gyda dysgwyr trwy esboniadau a thrwy bosteri gwybodaeth sy'n cynnwys codau cyfeirio (QR) cyflym i allu mynd yn hawdd at fwy o wybodaeth. Mae'r tiwtoriaid hyn yn ymestyn eu hymwybyddiaeth a'u medrau i gefnogi gwahanol anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Maent hefyd yn helpu dysgwyr i ddeall eu materion dysgu ac iechyd meddwl eu hunain, a rhai pobl eraill.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn achosi pryder. Mae pob darparwr o fewn y bartneriaeth wedi rhoi'r holl bolisïau a gweithdrefnau angenrheidiol ar waith o ran diogelu, gan gynnwys arferion recriwtio diogel.

Mae pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd ar-lein ar bynciau fel diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw systemau olrhain ar gyfer monitro hyfforddiant gorfodol wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid yw cofnodion canolog bob amser yn gyfoes.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin yn cynnwys tri darparwr sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ardal yr awdurdod lleol. Mae'n gweithio'n briodol gyda darparwyr eraill yn yr ardal i ddiwallu anghenion dysgwyr

presennol. Mae strwythur arweinyddiaeth strategol y bartneriaeth wedi newid yn ddiweddar, gan ddiffinio rolau a chyfrifoldebau'n gliriach.

Mae rheolwyr gweithredol yn cefnogi arferion pwrpasol, gan greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi mewnbwn staff. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu cyrsiau newydd, defnyddio ymagwedd hyblyg at achredu, arbrofi ag offer digidol, a chreu arddangosfeydd mewn canolfannau. Mae tiwtoriaid yn glir ynglŷn â strwythurau a llinellau adrodd a chânt eu cefnogi'n dda gan dîm ymatebol o reolwyr gweithredol. Mae perthnasoedd rhwng darparwyr yn gadarnhaol, a defnyddir sianelau cyfathrebu anffurfiol yn dda i rannu gwybodaeth, ac osgoi dyblygu darpariaeth.

Mae hunanasesiad y bartneriaeth o'i pherfformiad yn deg ac yn cydnabod bod angen gwella cynllunio a darparu gwelliant ansawdd a hyrwyddo rhaglenni yn well. Mae hefyd yn cydnabod bod angen monitro a sicrhau ansawdd cyffredinol darpariaeth y bartneriaeth a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae pob partner yn defnyddio'i broses sicrhau ansawdd sefydledig ei hun, ond nid oes gan y bartneriaeth ymagwedd na gweithdrefnau trosfwaol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr strategol yn ymwybodol o lawer o anghenion datblygu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effeithiolrwydd neu effaith eu gweithredoedd.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda yn anffurfiol ond nid oes ganddi ymagwedd strategol a chydlynus glir at gynllunio darpariaeth. Er enghraifft, ar hyn o bryd, nid oes ymagwedd ar y cyd o ran pennu pa ddarparwr sy'n gyfrifol am gyflwyno rhaglenni penodol.

Mae darparwyr unigol yn defnyddio ystod gynhwysfawr o strategaethau i recriwtio dysgwyr, gan gynnwys gwefannau, taflenni, digwyddiadau gwybodaeth, a diwrnodau agored. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn elwa ar ymagwedd drosfwaol a chydlynus at ymgysylltu â chymunedau Sir Gaerfyrddin a chynulleidfaoedd targed a nodwyd.

Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld tanwario yn erbyn y grant dysgu craidd, ac mae hwn yn cael ei ystyried yn briodol, gyda bwriad i roi proses gaffael ar waith i gyflwyno darpariaeth. Cytunir ar niferoedd targed ar gyfer darpariaeth ryddfraint y Cyngor trwy'r coleg o fewn cytundebau lefel gwasanaeth priodol, a chyflwynir ffurflenni data gan y coleg ar adegau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn academaidd.

Mae'r bartneriaeth wedi nodi bylchau mewn darpariaeth mewn meysydd fel iechyd meddwl, lles a chyrsiau cyfrwng Cymraeg, ac mae'n bwriadu llenwi'r rhain trwy'r broses gaffael gynlluniedig.

Mae partneriaid yn dechrau cydweithio ar drefniadau i gyflwyno prosiect Lluosi Llywodraeth y DU i ddatblygu medrau rhifedd oedolion. Mae tîm Lluosi yn yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r tîm dysgu cymunedol i fapio darpariaeth arfaethedig yn erbyn yr arlwy presennol i gefnogi dull mwy cydlynus.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno llawer o'i darpariaeth yn yr ardaloedd sy'n fwy niferus o ran poblogaeth, lle nodwyd bod angen. Mae amseroedd teithio dysgwyr i leoliadau yn amrywio, ac mae canolfannau'n hygyrch, yn gynnes, yn groesawgar ac yn cynnwys adnoddau priodol, ym marn y rhan fwyaf o ddysgwyr.

Mae arweinwyr yn wynebu heriau o ran recriwtio tiwtoriaid SSIE a medrau hanfodol cymwys a medrus. Caiff y rhai sydd â diddordeb mewn rolau eu hannog i wirfoddoli cyn addysgu, gyda'r potensial y byddant yn cael eu cynorthwyo'n dda trwy gymwysterau addysgu proffesiynol priodol.

Mae ymagwedd y bartneriaeth at nodi anghenion dysgu proffesiynol yn drylwyr ac yn cael ei llywio trwy reoli perfformiad, arsylwadau, teithiau dysgu a gweithgareddau llais y dysgwr.

Mae holl diwtoriaid yr awdurdod lleol yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein a gallant elwa ar ddysgu proffesiynol targedig, fel rhaglenni hylendid bwyd a hyfforddiant mewn dyslecsia, arferion sy'n ystyriol o drawma, a thechnegau holi effeithiol. Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill ar draws chwe sir i gyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol a gefnogir gan grant Datblygiad Proffesiynol Parhaus Llywodraeth Cymru.

Mae tiwtoriaid yr awdurdod lleol yn mynychu cyrsiau dysgu proffesiynol yn y coleg, lle bo'n briodol. Yn yr un modd, mae tiwtoriaid y coleg a thiwtoriaid Addysg Oedolion Cymru yn elwa ar weithgareddau dysgu proffesiynol wedi'u harwain gan yr awdurdod lleol. Caiff cyfleoedd hyfforddi eu croesawu, mae presenoldeb yn dda, a chaiff thiwtoriaid ar draws y bartneriaeth daliad i gymryd rhan.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/03/2024